Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynlluniau Datblygu Strategol: Canllaw Cymunedol



Ysgrifennwyd gan Cymorth Cynllunio Cymru gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru

Hydref 2024

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

# Cynlluniau Datblygu Strategol: Canllaw Cymunedol

Ysgrifennwyd gan Cymorth Cynllunio Cymru gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru

## Beth yw'r ddogfen hon?

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud â 'Chynlluniau Datblygu Strategol', math newydd o gynllun yng Nghymru a fydd yn cael ei gynhyrchu mewn pedwar rhanbarth (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru).

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio ar gyfer cynghorau cymuned a thref, grwpiau cymunedol ac unigolion sydd eisiau deall ac ymateb i ymgynghoriadau'r Cynllun Datblygu Strategol.

Yn ogystal â rhoi trosolwg o sut mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu paratoi, mae'r ddogfen hon yn archwilio egwyddorion sylfaenol datblygu polisi i helpu i ganolbwyntio ymatebion cymunedol ar ble y gallant gael yr effaith fwyaf.

Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â'r *Canllaw Cymunedol Cynlluniau Datblygu,* ar gael yn: https://planningaidwales.org.uk/cynlluniau-datblygu-canllaw-cymunedol/?lang=cy

# Cynnwys

**Beth yw'r ddogfen hon?** .......... **2**

**Cynnwys** .......... **3**

**1. Cyflwyniad** .......... **4**

Beth yw cynllunio? .......... 4

Pwy yw pwy mewn cynllunio? .......... 4

Beth yw polisi cynllunio? .......... 5

Pam mae Cynlluniau Datblygu yn bwysig? .......... 6

**2. Trosolwg Cynlluniau Datblygu Strategol** .......... **7**

Beth yw Cynlluniau Datblygu Strategol? .......... 7

Pwy sy'n paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol? .......... 7

Pa faterion mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhoi sylw iddynt? .......... 8

Sut mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu paratoi? .......... 9

A fydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn newid Cynlluniau Datblygu Lleol? .......... 10

Sut mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn edrych? .......... 11

Beth mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn ei olygu i gymunedau? .......... 12

**3. Cynlluniau Datblygu Strategol – Egwyddorion Pwysig** .......... **13**

Beth yw 'cydymffurfiaeth gyffredinol'? .......... 14

Beth yw 'strategaeth' a beth mae'n ei olygu ym maes cynllunio? .......... 14

Pam mae tystiolaeth yn bwysig? .......... 16

Onid yw'r ardaloedd yn rhy fawr? .......... 16

A fydd cyfeiriad at fy nhref / fy mhentref yn yr SDP? .......... 17

**4. Ymgysylltu â Chynlluniau Datblygu Strategol** .......... **18**

Sut bydd cymunedau'n ymgysylltu? .......... 18

Pam ymgysylltu? Onid yw Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhy bell oddi wrthym ni? .......... 18

Sut gall cymunedau ychwanegu gwerth? .......... 19

Ble ydyn ni'n dechrau? .......... 19

Sut y dylem fynd ati i ymateb? .......... 20

Sut ydym ni'n ymateb? .......... 21

A allai Cynlluniau Bro ychwanegu gwerth? .......... 22

Lle gallaf gael rhagor o wybodaeth? .......... 22

# 1. Cyflwyniad

## Beth yw cynllunio?

Mae cynllunio'n rheoli datblygiad a'r defnydd o dir er budd y cyhoedd.

Mae cynllunio yn ein helpu i benderfynu ble y dylid adeiladu cartrefi, busnesau a seilwaith newydd a pha ardaloedd y dylid eu diogelu.

Mae cynllunio yn ymwneud â darparu datblygiad cynaliadwy, neu ddatblygiad sy'n diwallu ein hanghenion presennol heb rwystro gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu rhai nhw.

Mae cynllunio yn cydbwyso twf economaidd, diogelu'r amgylchedd, ac ecwiti cymdeithasol i sicrhau iechyd a lles hirdymor i bobl a'r blaned.

Yng Nghymru, mae cynllunio wedi'i adeiladu ar flaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (fel y 5 Ffordd o Weithio) ac yn ymgorffori egwyddorion creu lleoedd yn ei arferion.




Mae creu lleoedd yn ddull cydweithredol o greu gofodau bywiog, cynaliadwy a chynhwysol sy'n integreiddio anghenion a gwerthoedd cymunedol ar gyfer gwell lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae cynllunio'n cael ei lywio gan gynlluniau polisi a datblygu cynllunio a baratowyd gan wahanol lefelau o lywodraeth. Mae'r cynlluniau a'r polisïau hyn yn llywio penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

## Pwy yw pwy mewn cynllunio?

Mae gan wahanol grwpiau rolau a chyfrifoldebau penodol wrth gynllunio:

1. **Llywodraeth Cymru:** Yn goruchwylio ac yn cefnogi'r system gynllunio yng Nghymru drwy nodi deddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol a darparu arweiniad ar bob agwedd ar gynllunio.
2. **Awdurdodau Cynllunio Lleol (LPA):** Yn cynnwys y 22 awdurdod unedol (cynghorau dinas a chynghorau bwrdeistref sirol) a 3 awdurdod parciau cenedlaethol. Maen nhw'n gyfrifol am greu a gweithredu Cynlluniau Datblygu Lleol a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn eu hardaloedd.
3. **Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs):** Grwpiau rhanbarthol o Awdurdodau Lleol, mae'r pedwar corff rhanbarthol hyn yn paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

4. **Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW):** Corff yr Arolygwyr Cynllunio sy'n ymdrin ag apeliadau cynllunio ac yn cynnal archwiliadau o gynlluniau datblygu i sicrhau y gellir eu mabwysiadu.
5. **Ymgynghoreion Statudol:** Sefydliadau mae'n rhaid ymgynghori â nhw ar faterion cynllunio, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, a chwmnïau cyfleustodau.
6. **Datblygwyr:** Unigolion neu sefydliadau sy'n cynnig prosiectau datblygu, yn gofyn am ganiatâd cynllunio, ac yn y pen draw yn adeiladu a chyflawni datblygiad.
7. **Ymgynghorwyr ac Arbenigwyr:** Yn cynrychioli a chynghori pleidiau eraill, gan ddarparu arbenigedd mewn meysydd fel dylunio trefol, effaith amgylcheddol a chadw treftadaeth.
8. **Cymunedau / Y Cyhoedd:** Yn bwydo gwybodaeth leol i'r broses gynllunio drwy ymgynghoriadau cynllunio ac ymarferion cynnwys cymunedol. Gellir gwneud hyn drwy Gynghorau Tref a Chymuned lleol.

## Beth yw polisi cynllunio?

Mae polisi cynllunio yn llywio penderfyniadau ac yn y pen draw yn sicrhau bod datblygiad a defnydd tir yn cael ei reoli er budd y cyhoedd.

Ar lefel genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi egwyddorion a blaenoriaethau arweiniol ar gyfer y system gynllunio drwy *Polisi Cynllunio Cymru* a *Nodiadau Cyngor Technegol*.

Mynegir polisi cynllunio hefyd drwy dair haen o gynlluniau datblygu yng Nghymru:

- **Cenedlaethol - *Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040.*** Wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021, mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar atebion i faterion a heriau ar lefel genedlaethol - mae'n gynllun datblygu ar gyfer Cymru gyfan.
- **Rhanbarthol - *Cynlluniau Datblygu Strategol.*** Mae'r cynlluniau rhanbarthol hyn yn cael eu paratoi gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol ac yn canolbwyntio ar faterion sy'n croesi ffiniau Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae 4 rhanbarth a bydd 4 Cynllun Datblygu Strategol yng Nghymru.
- **Lleol– *Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynllun Datblygu Lleol Cryno*.** Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu creu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru i fynd i'r afael â materion lleol, gweledigaeth ac amcanion drwy bolisïau, a chynigion ar gyfer datblygu newydd. Bydd Cynllun Datblygu Lleol 'Cryno' (LDPLs) yn gynlluniau byrrach, mwy penodol sy’n cael eu paratoi ar ôl mabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol (SDP). Maen nhw’n adeiladu ar strategaethau rhanbarthol a amlinellir yn y Cynllun Datblygu Strategol i'w gweithredu ar lefel leol.

Mae angen i'r holl Gynlluniau amrywiol hyn fod yn gyson neu mewn 'cydymffurfiaeth gyffredinol' â phob haen uchod.

## Pam mae Cynlluniau Datblygu yn bwysig?

Mae cynlluniau datblygu yn nodi polisïau, cynigion a dyraniadau tir manwl ar draws ardal/ardaloedd awdurdod lleol. Unwaith mae cynllun datblygu'n cael ei fabwysiadu, dylid gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol ag ef, oni bai bod materion eraill yn nodi fel arall.

Mae cynlluniau datblygu yn bwysig oherwydd eu bod yn gwneud y canlynol:

- Nodi lefelau twf ar gyfer ardal (e.e. tai a swyddi)
- Gosod strategaethau a lleoliadau gofodol ar gyfer datblygu yn y dyfodol
- Dyrannu tir ar gyfer datblygiad newydd
- Cynllunio ar gyfer seilwaith newydd fel ffyrdd ac ysgolion
- Nodi tir i'w warchod rhag datblygu
- Sicrhau dyluniad da a chreu lleoedd

Fel arfer, mae cynlluniau datblygu yn cwmpasu cyfnod estynedig o amser (e.e. hyd at 15 mlynedd) ac maen nhw'n cynnig eglurder a sicrwydd ynghylch ble mae'r datblygiad yn debygol o ddigwydd yn ystod y cyfnod hwnnw a sicrhau bod seilwaith digonol i'w gefnogi.

Mae'r prif bynciau mae cynllun datblygu yn eu cwmpasu yn cynnwys:

- Dylunio a chreu lleoedd
- Newid yn yr Hinsawdd
- Trafnidiaeth
- Tai
- Seilwaith Cymunedol
- Cyflogaeth
- Llifogydd
- Siopa
- Ynni Adnewyddadwy
- Mwynau
- Rheoli gwastraff
- Twristiaeth
- Cadwraeth amgylcheddol
- Treftadaeth
- Sipsiwn a Theithwyr

# 2. Trosolwg Cynlluniau Datblygu Strategol

## Beth yw Cynlluniau Datblygu Strategol?

Cynllun rhanbarthol yw Cynllun Datblygu Strategol sy'n canolbwyntio ar faterion cynllunio sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol.




Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn arwain darpariaeth datblygu a seilwaith dros ardal ddaearyddol ehangach na Chynllun Datblygu Lleol unigol. Byddant yn sicrhau bod twf a newid yn cael eu rheoli mewn ffordd gydgysylltiedig ar draws y rhanbarth.

Bydd pedwar SDP: De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru. Gallai'r pedwar cynllun fod yn wahanol, gan adlewyrchu materion rhanbarthol.

Mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan yn yr SDP, hyd yn oed os nad yw'n effeithio'n uniongyrchol arnoch chi, gan y bydd y cynllun yn dylanwadu ar ffurf, byrdwn a lleoliad datblygiad yn eich rhanbarth a chynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno yn ardal eich awdurdod.

## Pwy sy'n paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol?

Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu paratoi gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol, sef grwpiau rhanbarthol sy'n cynnwys nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol ym mhob rhanbarth:

<table>
<tr>
<td>De-orllewin Cymru:<br>Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin<br>Abertawe<br>Castell Nedd Port Talbot</td>
<td>Gogledd Cymru:<br>Gwynedd<br>Parc Cenedlaethol Eryr<br>Ynys Môn<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Wrecsam</td>
<td>Canolbarth Cymru:<br>Ceredigion<br>Powys<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (NP)</td>
<td rowspan="2">De-ddwyrain Cymru:<br>Bannau Brycheiniog NP<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>Bro Morgannwg<br>Rhondda Cynon Taf<br>Merthyr Tudful<br>Caerdydd<br>Caerffili<br>Blaenau Gwent<br>Casnewydd<br>Torfaen<br>Sir Fynwy</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="3">Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs)<br>a'u haelod-awdurdodau</td>
</tr>
</table>

Yn ogystal â pharatoi Cynlluniau Datblygu Cynaliadwy, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn gyfrifol am baratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ac am hyrwyddo a gwella lles economaidd eu hardaloedd. Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn cynnwys arweinwyr etholedig cynghorau pob awdurdod lleol yn y rhanbarth yn ogystal â chynrychiolwyr parciau cenedlaethol yn yr ardal. Mae pob Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn cael ei ariannu gan ei aelod-awdurdodau a bydd yn penodi staff y mae'n rhaid iddynt gynnwys Prif Weithredwr, Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro. Mae gwybodaeth fanylach am Gyd-bwyllgorau Corfforaethol a'u pwerau ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/cyd-bwyllgorau-corfforedig.pdf

Mae mwy o wybodaeth am bob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar gael yn:

- De-ddwyrain Cymru ('Prifddinas-Ranbarth Caerdydd)': https://www.cardiffcapitalregion.wales/cy/cyd-bwyllgor-corfforaethol-de-ddwyrain-cymru/
- De-orllewin Cymru ('Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru'): http://www.cjcsouthwest.wales/?lang=cy-gb
- Canolbarth Cymru ('Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru'): https://powysw.moderngov.co.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=920
- Gogledd Cymru ('Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru'): https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//mgCommitteeDetails.aspx?ID=433

## Pa faterion mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhoi sylw iddynt?

Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yng Nghymru yn ymdrin â'r materion canlynol, lle mae'r materion yn bwysig ar draws ffiniau neu i'r rhanbarth cyfan:

- **Tai a Thwf Cyflogaeth**: Pennu maint a lleoliad twf tai a chyflogaeth yn y dyfodol ar draws y rhanbarth.

- **Safleoedd Datblygu Strategol:** Nodi safleoedd strategol ar gyfer datblygu tai a chyflogaeth a defnyddiau cymysg eraill a sefydlu egwyddorion creu lleoedd ar gyfer y safleoedd hyn.

- **Seilwaith Gwyrdd:** Cynllunio ar gyfer llwybrau seilwaith gwyrdd strategol i gysylltu mannau naturiol a mannau gwyrdd.

- **Seilwaith Trafnidiaeth:** Mynd i'r afael ag anghenion trafnidiaeth, megis rhwydweithiau ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, ac opsiynau teithio cynaliadwy.

- **Dynodiadau amgylcheddol:** Cydlynu gwaith diogelu'r amgylchedd megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur a Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, a'u cydbwyso ag anghenion datblygu.

- **Ynni, Mwynau, a Gwastraff:** Ystyried anghenion y rhanbarth am ynni, adnoddau mwynol a rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy.

- **Strategaethau'r Awdurdod Lleol:** Darparu fframwaith i Awdurdodau Cynllunio Lleol greu Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

## Sut mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu paratoi?

Mae'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol yn debyg i broses baratoi gyfredol y Cynllun Datblygu Lleol. Mae pob un o gamau allweddol y broses yn cynnwys cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd:




1. **Cytundeb Cyflawni**: Mae'r cam cychwynnol hwn yn cynnwys paratoi amserlen ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Cynnwys Cymunedau (CIS). **Gallwch ymgysylltu trwy ymgyfarwyddo â'r Cytundeb Cyflawni a chofrestru eich diddordeb gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i gael y wybodaeth ddiweddaraf.**

2. **Ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir:** Ar hyn o bryd, gallwch roi adborth ar y cynllun cychwynnol, sy'n cynnwys polisïau strategol ac ardaloedd datblygu. Mae'r adborth hwn yn hanfodol i helpu i lunio'r cynllun wrth symud ymlaen yn y broses baratoi.

3. **Ymgynghoriad Cynllun Adnau:** Dyma'r drafft llawn o'r SDP. Gallwch gyflwyno sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, a fydd yn cael eu hystyried yn natblygiad y cynllun.

4. **Archwiliad Cyhoeddus:** Mae archwiliad annibynnol a gynhelir gan Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru yn sicrhau bod y cynllun yn gadarn ac wedi'i ategu gan dystiolaeth gadarn. Gallwch gymryd rhan mewn gwrandawiadau llafar neu

gyflwyno datganiadau ysgrifenedig os ydych chi wedi rhoi mewnbwn yn ystod ymgynghoriad y Cynllun Adnau o'r blaen.

5. **Adroddiad yr Arolygydd a Mabwysiadu:** Ar ôl yr archwiliad cyhoeddus, bydd yr arolygydd yn paratoi adroddiad ar gadernid y cynllun a gyflwynwyd. Gall yr adroddiad hwn gynnwys newidiadau a argymhellir, sy'n rhwymo. Yna bydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn pleidleisio i fabwysiadu'r cynllun o fewn 8 wythnos o dderbyn adroddiad yr arolygydd.

6. **Monitro ac Adolygu:** Ar ôl mabwysiadu, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn monitro effeithiau'r cynllun ac yn paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol. Cynhelir adolygiad bob chwe blynedd neu'n gynt os oes angen. Gallwch ymgysylltu drwy roi mewnbwn ar ba mor effeithiol yw'r cynllun a chael y wybodaeth ddiweddaraf drwy'r adroddiadau monitro ac adolygu.

Am fwy o fanylion am bob cam paratoi gweler tudalennau 18-22 o'r canllaw canlynol: https://planningaidwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/05/Canllawiau-ar-Gynlluniau-Datblygu-i-Gymunedau-Cymraeg.pdf

## A fydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn newid Cynlluniau Datblygu Lleol?

Bydd, bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael effaith ar Gynlluniau Datblygu Lleol (LDPs). Unwaith y bydd Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei fabwysiadu, bydd cynlluniau dilynol y bydd pob Awdurdod Lleol yn eu paratoi yn cael eu galw'n Gynllun Datblygu Lleol 'Cryno'.




Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Cryno yn gynllun datblygu symlach, byrrach a mwy penodol sy'n cwmpasu cyfnod o ddeng mlynedd o leiaf. Bydd y cynllun yn nodi dyraniadau llai a mwy lleol yn ardal eich awdurdod a fydd yn cael eu gosod o fewn fframwaith yr SDP. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Cryno hefyd yn cynnwys polisïau a ddefnyddir wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio lleol.

Gellir paratoi'r cynlluniau hyn yn unigol neu ar y cyd gan ddau neu fwy o awdurdodau yn yr un rhanbarth. Disgwylir y byddant yn cymryd tua 2 flynedd i baratoi; cyfnod llawer byrrach na pharatoi Cynllun Datblygu Lleol presennol.

Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn nodi'r fframwaith strategol ar gyfer y rhanbarth, gan gynnwys y strategaeth ofodol a maint a lleoliad twf tai a chyflogaeth ar gyfer pob un o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol, yn ogystal â defnyddiau tir eraill fel y bo'n briodol. **Gan fod y wybodaeth hon eisoes wedi'i diffinio yn yr SDP, nid oes angen ei hailasesu wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno.**

Mae'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Cryno yn debyg iawn i'r broses o baratoi'r Cynlluniau Datblygu Lleol, gydag un gwahaniaeth allweddol: ni fydd ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Cryno. Felly, bydd angen i chi roi eich barn ar faterion allweddol sy'n effeithio ar eich cymuned fel rhan o'r broses Cynllun Datblygu Strategol - bydd y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer eich ardal leol yn cael ei gosod gan y Cynllun Datblygu Strategol. Bydd y camau paratoi cynllun sy'n weddill yn y broses Cynllun Datblygu Lleol Cryno yn adlewyrchu'r broses Cynlluniau Datblygu Lleol.

## Sut mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn edrych?

Bydd strwythur dogfennau Cynllun Datblygu Strategol yn adlewyrchu'n fras ffurf LDPs presennol a dylent ddilyn y fformat canlynol:

- **Teitl, Cyfnod Cynllunio a Chyflwyniad**, gan gynnwys y cyfnod cynllunio 25 mlynedd ac esboniad o gyd-destun, materion, strategaethau ac amcanion llesiant sy'n llywio'r cynllun.
- **Strategaeth/Polisïau Rhanbarthol,** gan gynnwys gweledigaeth, nodau ac amcanion cyffredinol, hierarchaeth aneddiadau rhanbarthol a pholisïau strategol allweddol ar gyfer tai, cyflogaeth, manwerthu, seilwaith a'r Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys lefelau arfaethedig a dosbarthiad twf gofodol a bydd yn cael ei gefnogi gan ddiagramau/mapiau allweddol. Alinio â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- **Strategaethau a Pholisïau Isranbarthol (lle bo hynny'n berthnasol),** wedi'u cyflwyno yn yr un modd â'r uchod, ond dim ond ar gyfer materion sy'n briodol i'r isranbarth hwnnw.
- **Polisïau Fframwaith Cynllun Datblygu Lleol Cryno,** byddant yn cynnwys strategaethau gofodol ar gyfer aneddiadau allweddol, tai, cyflogaeth a gofynion defnydd tir eraill a niferoedd darpariaeth Sipsiwn/Teithwyr ar gyfer ardal pob Awdurdod Cynllunio Lleol.
- **Polisïau Rheoli Datblygu Rhanbarthol.** Polisïau cryno ar faterion rhanbarthol cyffredin (e.e. tai fforddiadwy, dylunio, trafnidiaeth) ar gyfer materion sy'n gyffredin ar draws y rhanbarth.

- **Cyfiawnhad Rhesymegol.** Datganiadau i gyfiawnhau ac egluro sut y bydd polisïau'n cael eu gweithredu.
- **Safle(oedd) Strategol/Dyraniadau Ardal Chwilio –** safleoedd/meysydd penodol lle dylai mathau penodol o ddatblygiadau ddigwydd, gan gynnwys polisïau, egwyddorion prif gynllunio a gofynion seilwaith ar gyfer y datblygiadau hynny.
- **Fframwaith Monitro** sy'n esbonio sut y bydd y strategaeth, y polisïau a'r cynigion yn cael eu monitro.
- **Map(iau) Cynigion** Mapiau naill ai fel atodiad neu wedi'u gosod drwy’r ddogfen, gan ddangos yn glir leoliadau a ffiniau polisïau ac ardaloedd diogelu.

Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol hefyd yn cynnwys taflwybr tai, crynodeb o faterion gweithredu a chyflawni, a manylion technegol eraill a geirfaoedd i helpu i egluro materion yn y prif gynllun.

## Beth mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn ei olygu i gymunedau?

Bydd cynhyrchu Cynlluniau Datblygu Strategol yn caniatáu ar gyfer dulliau mwy cydlynol o ymdrin â heriau fel darpariaeth seilwaith a bydd yn caniatáu ar gyfer cyfuno sgiliau ac adnoddau na ellir mynd i'r afael â hwy ar lefel leol. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn ystyried sut mae pobl yn byw eu bywydau o ddydd i ddydd o ran symud yn ac o amgylch y rhanbarth sy'n cysylltu ble maen nhw’n byw, yn gweithio, yn siopa ac yn chwarae.

Er bod Cynlluniau Datblygu Strategol yn haen newydd yn y broses gynllunio, byddant yn y pen draw yn symleiddio'r broses gynllunio trwy wneud Cynlluniau Datblygu Lleol yn ysgafnach ac yn gyflymach i'w paratoi - gan ganiatáu i awdurdodau fod yn fwy ymatebol i faterion lleol yn y pen draw.

Bydd yr haen newydd hon yn ychwanegu ymgynghoriadau ychwanegol i'r broses gynllunio, er y gallai fod blaenoriaethau gwahanol ar lefel ranbarthol na'r hyn y gellir dod ar eu traws ar lefel leol, bydd mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn y broses gynllunio.

Bydd ymgynghoriadau ar lefel Cynllun Datblygu Strategol yn ôl eu natur yn fwy 'strategol', cymhleth a bydd yn rhaid iddynt ystyried llawer iawn o dystiolaeth fanwl sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol mawr.

O ystyried hyn a'r ffaith y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn dileu'r cam 'Strategaeth a Ffefrir' o Gynlluniau Datblygu Lleol y dyfodol, dylid ystyried bod ymgysylltu cynnar â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol yn hanfodol i gymunedau – gweler rhan 4 am fwy o wybodaeth.

# 3. Cynlluniau Datblygu Strategol – Egwyddorion Pwysig

Bydd yr adran hon yn archwilio rhai o egwyddorion sylfaenol cynllunio rhanbarthol a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol i ddarparu gwell cyd-destun ar gyfer cymryd rhan mewn Cynlluniau Datblygu Strategol, fel y trafodir yn rhan 4. Yr egwyddorion craidd ar gyfer datblygu Cynllun Datblygu Strategol yw:

1. Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol fod mewn **cydymffurfiaeth gyffredinol** gyda Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru a chwmpasu cyfnod o 25 mlynedd o leiaf.
2. Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol nodi **gweledigaeth a strategaeth** cyffredinol ar gyfer eu hardal gynllunio a mynegi polisïau **ledled y rhanbarth**, a pholisïau isranbarthol lle bo hynny'n berthnasol. Dylai Cynllun Datblygu Strategol nodi Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Cryno ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn y rhanbarth, nodi *hierarchaeth aneddiadau clir* (ffordd o flaenoriaethu lleoedd yn nhrefn eu cynaliadwyedd ar gyfer datblygiad newydd) a lleoliadau strategol ar gyfer twf a datblygu a darparu polisïau i Awdurdodau Cynllunio Lleol baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno.
3. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol gasglu a dadansoddi **tystiolaeth** i nodi prif ysgogwyr newid, y gallu i ddarparu ar gyfer newid, a phrofi gwahanol gysyniadau/opsiynau twf gofodol.
4. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol ganolbwyntio ar faterion, pynciau neu leoedd rhanbarthol arwyddocaol sy'n allweddol i gyflawni materion ehangach na lleol y tu hwnt i Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol osod trothwyon na chyfeirir at leoedd, dyraniadau a materion gofodol oddi tanynt, gan **nad oes angen cynnwys pob man** ar y raddfa strategol.

Mae'r prif egwyddorion uchod yn cael eu harchwilio ymhellach yn y rhannau sy'n weddill o'r bennod hon.

## Beth yw 'cydymffurfiaeth gyffredinol'?

Mae cydymffurfiaeth gyffredinol yn ofyniad sy'n sicrhau bod cynlluniau haen is, fel Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno, yn cyd-fynd ag egwyddorion cyffredinol cynlluniau haen uwch, megis Cynlluniau Datblygu Strategol a Chymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040.




Mae'r cysyniad hwn yn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn gyson ac yn cefnogi'r strategaethau a'r nodau cyffredinol a amlinellir yng nghynlluniau'r haen uchaf.

Mae cydymffurfiaeth gyffredinol yn golygu bod yn rhaid i gynllun haen is gefnogi a chynnal strategaeth, polisïau a chynigion cyffredinol y cynllun(iau) haen uwch diweddaraf.

<u>Beth am amseru?</u>

Mewn egwyddor, gallai mabwysiadu cynllun haen uchaf newydd sbarduno adolygiadau o gynlluniau oddi tanynt. Hyd nes y bydd newidiadau haen is yn cael eu mabwysiadu, byddai'r cynllun haen uchaf yn cael blaenoriaeth fel ystyriaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau.

## Beth yw 'strategaeth' a beth mae'n ei olygu ym maes cynllunio?

Yn gyffredinol, mae strategaeth yn gynllun neu ddull cynhwysfawr wedi'i ddylunio i gyflawni nod neu set benodol o nodau. Fel arfer mae'n cynnwys dadansoddi sefyllfa, gosod amcanion, ac amlinellu'r camau neu'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion hynny. Mae elfennau allweddol strategaeth yn cynnwys ymchwil, dadansoddi, gosod nodau, a gwerthuso canlyniadau.

Mae strategaeth sydd wedi'i diffinio'n dda yn helpu i lywio penderfyniadau ac yn gosod y ffordd ar gyfer cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

O ystyried mai pwrpas y system gynllunio yw rheoli datblygiad a defnydd tir, mae strategaeth gynllunio yn 'ofodol' - mae'n ystyried heriau, trefniadaeth a datblygiad posib ardal ddaearyddol yn y dyfodol. Dylai ystyried sut y dylid dyrannu a rheoli defnydd tir ac adnoddau i gyflawni nodau penodol, megis twf economaidd, cynaliadwyedd amgylcheddol, a lles cymdeithasol.

Mae strategaeth ofodol yn ystyried ffactorau amrywiol i bennu maint a lleoliad twf, gan gynnwys twf poblogaeth, seilwaith trafnidiaeth, anghenion tai, hierarchaeth aneddiadau a phryderon amgylcheddol; mewn geiriau eraill, strategaeth gynlluniau yw un sy'n ceisio mynd i'r afael â materion cynllunio perthnasol mewn ardal benodol dros gyfnod penodol o amser.

**Strategaeth Cynllunio – Enghraifft Syml:**

*Bydd y cynllun hwn yn darparu X,10,000 o gartrefi erbyn 2050.*

*Dylid blaenoriaethu datblygiad...*

*... mewn ardaloedd trefol / canol trefi presennol yn gyntaf.*

*... ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol (tir llwyd).*

Yng nghyd-destun SDP, bydd paratoi strategaethau yn cynnwys:

- Creu Gweledigaeth: Sefydlu cynllun clir, hirdymor ar gyfer twf a datblygiad y rhanbarth.
- Nodi Ysgogwyr Allweddol ar gyfer Newid: Deall ffactorau pwysig fel twf economaidd, newid yn y boblogaeth, anghenion tai, seilwaith a mentrau datblygu lleol.
- Asesu Capasiti'r Rhanbarth ar gyfer Newid: Gwerthuso gallu'r rhanbarth i reoli datblygiad a thwf newydd, gan gynnwys rôl lleoedd, eu potensial datblygu, diogelu'r amgylchedd, perthnasoedd rhwng ardaloedd, a mynediad i drafnidiaeth.
- Ystyried Gwahanol Strategaethau Datblygu: Archwilio gwahanol opsiynau ar gyfer sut y gallai'r rhanbarth dyfu.

## Pam mae tystiolaeth yn bwysig?

Mae gwneud penderfyniadau strategol ar sail tystiolaeth 'gadarn' yn gonglfaen i ddatblygiad polisi cynllunio. Mae 'Cadarn' yn golygu y dylai'r dystiolaeth allu gwrthsefyll profion a chraffu annibynnol wrth archwilio.

Yr enw ar y gyfres o adroddiadau tystiolaeth a gasglwyd wrth gynhyrchu unrhyw ddogfen polisi cynllunio yw **sylfaen dystiolaeth,** ac mae sylfaen dystiolaeth gref yn hanfodol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol.

Dylai'r dystiolaeth gyfiawnhau polisïau, cynigion a dyraniadau safleoedd strategol yr Cynlluniau Datblygu Strategol a rhoi hyder i awdurdodau cynllunio lleol, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid fod y cynllun yn nodi'r dull cywir ar gyfer y rhanbarth. Bydd cryfder y dystiolaeth sydd wedi arwain at y penderfyniadau strategol yn y ddogfen yn cael ei brofi yn ystod y cam archwilio.

Er y gall tystiolaeth Cynllun Datblygu Lleol bresennol ddarparu sylfaen, bydd Cynlluniau Datblygu Strategol angen astudiaethau newydd a chasglu tystiolaeth i lenwi bylchau a chael data ar lefel strategol ar draws y rhanbarth cyfan. Mae sylfaen dystiolaeth briodol, berthnasol a chymesur sy'n canolbwyntio ar faterion rhanbarthol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod strategaeth, polisïau a chynigion y Cynlluniau Datblygu Strategol yn effeithiol, integredig a chadarn.

**Enghraifft o dystiolaeth SDP:**

- *Tystiolaeth bresennol o Gynlluniau Datblygu Lleol mabwysiedig yn y rhanbarth.*
- *Amcanestyniadau poblogaeth/cartref*
- *Rhagolygon economaidd*
- *Asesiadau o gapasiti seilwaith*
- *Asesiadau o gysylltedd rhwng aneddiadau*
- *Astudiaethau Amgylcheddol*
- *Astudiaethau Seilwaith Gwyrdd*

Yn hytrach na chyfuno'r strategaethau Cynllun Datblygu Lleol presennol yn unig, dylai'r sylfaen dystiolaeth ganiatáu i'r Cynllun Datblygu Strategol fynegi gweledigaeth gynhwysfawr newydd sy'n cyfrif am amgylchiadau rhanbarthol, newidiadau polisi cenedlaethol, bargeinion twf, anghenion seilwaith a mwy.

## Onid yw'r ardaloedd yn rhy fawr?

Rydym ni’n cydnabod bydd y rhanbarthau yn cwmpasu ardaloedd mawr. Er y bydd Cynllun Datblygu Strategol yn pennu polisïau ar draws y rhanbarth, cydnabyddir hefyd bod lleoedd amrywiol ym mhob rhanbarth yn amrywio o ardaloedd gwledig i ddinasoedd mawr sydd ag anghenion a blaenoriaethau gwahanol.

Ni fydd y natur unigryw hwn yn cael ei golli – bydd Awdurdodau Lleol yn parhau i fodoli ac yn cynhyrchu Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno; pwrpas y dull rhanbarthol yw caniatáu gwell cynllunio ar gyfer materion trawsffiniol. Fel rhan o'r broses o baratoi SDP, gellir nodi 'Is-ranbarthau' ar gyfer ardaloedd daearyddol sy'n rhychwantu un neu fwy o bolisïau ffiniau awdurdodau lleol a gellir pennu polisïau isranbarthol yn unol â'r mater o bwysigrwydd i'r ardal honno:




Gall is-ranbarthau gael eu diffinio gan nodweddion daearyddol, economaidd, diwylliannol neu eraill cyffredin sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth weddill y rhanbarth. Dylai'r Strategaeth Cynllun Datblygu Strategol a'r fframwaith polisi ei gwneud yn glir beth yw rhanbarth, beth yw is-ranbarth a'r hyn sy'n ofynnol wrth baratoi LDLs unigol.

## A fydd cyfeiriad at fy nhref / fy mhentref yn yr SDP?

Mae'n annhebygol y byddwn yn cyfeirio at lawer o bentrefi neu drefi yn ôl enw yn y cynllun oni bai eu bod yn ymwneud â meysydd blaenoriaeth i'w datblygu o fewn polisi isranbarthol neu ranbarthol. Mae'n debygol y bydd yr ardaloedd blaenoriaeth hyn yn gyfarwydd i chi hyd yn oed os na chyfeirir at y pentref neu'r dref lle rydych chi'n byw. Cynnig y Cynllun Datblygu Strategol yw canolbwyntio ar feysydd allweddol o newid. Fodd bynnag, o ystyried y bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn gosod y strategaeth a ffefrir ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno yn y dyfodol (y dogfennau sy'n fwy tebygol o gyfeirio at eich pentref / tref), yna mae'n hanfodol ymgysylltu â Chynlluniau Datblygu Strategol wrth iddynt gael eu paratoi.

# 4. Ymgysylltu â Chynlluniau Datblygu Strategol

## Sut bydd cymunedau'n ymgysylltu?

Un o ganlyniadau allweddol paratoi Cynllun Datblygu Strategol fydd datblygu sylfaen dystiolaeth sy'n seiliedig ar gyfranogiad cymunedol cynnar, effeithiol ac ystyrlon. Bydd hyn yn caniatáu i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol ddeall ac ystyried ystod eang o safbwyntiau ac anelu at adeiladu consensws ar y strategaeth, y polisïau a'r cynigion gofodol mewn SDP.

Bydd hyn wrth gwrs yn heriol o ystyried maint y cynllun, a dylid nodi nad yw 'consensws' a 'chytundeb unfrydol' yr un peth - **ni fydd pawb yn cytuno mai'r dull gweithredu a ddewiswyd yw'r dull cywir** - yn y pen draw, mae'n hanfodol bod Cynlluniau Datblygu Strategol yn ystyried ac yn ymateb i dystiolaeth, a bydd angen ystyried y manylion yn erbyn cyfeiriad cyffredinol y rhanbarth ar gyfer teithio.

Bydd Cynllun Cyfranogiad Cymunedau yn cael ei baratoi fel rhan o gam y Cytundeb Cyflawni (cam cynharaf y broses baratoi). Bydd hyn yn nodi sut, ble a phryd y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynrychiolwyr cymunedol, a fydd yn cynnwys Cynghorau Cymuned a Thref.

Fel paratoi'r LDP, bydd gofyn i bob cam statudol gwblhau ymgynghoriad 6 wythnos o leiaf ac mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn gryf y bydd hyn yn digwydd ar y Cytundeb Cyflawni ei hun hefyd.

Rhaid i bob Cyd-bwyllgor Corfforaethol ystyried y ffyrdd mwyaf priodol ac effeithlon o ymgysylltu â phob sector o'r gymuned yn eu rhanbarthau ac felly nid oes unrhyw ddulliau rhagnodedig ar gyfer ymgysylltu ac ni ellir defnyddio dull 'un maint i bawb'. Fodd bynnag, pa bynnag ddulliau ac amseriadau a ddewisir, byddant yn cael eu hesbonio yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau.

## Pam ymgysylltu? Onid yw Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhy bell oddi wrthym ni?

Yn gyffredinol, mae cyfranogiad cymunedol mewn paratoi polisi yn gwneud polisi cryfach, yn meithrin ymddiriedaeth ac atebolrwydd rhwng rhanddeiliaid ac yn caniatáu i groestoriadau eang o'n cymunedau gael eu clywed.

Er y bydd materion lleol a thrawsffiniol a fydd yn wahanol mewn gwahanol rannau o ranbarth, nid yw materion rydych chi wedi dod ar eu traws yn lleol o reidrwydd yn unigryw i'ch tref neu'ch pentref ac yn aml maen nhw'n debyg mewn lleoliadau eraill.

Er enghraifft, mae dirywiad canol trefi, diffyg tai fforddiadwy a'r angen am drafnidiaeth fwy cynaliadwy yn faterion mae llawer o drefi a phentrefi ledled Cymru yn eu hwynebu.

Fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol, er efallai na chyfeirir at eich tref / pentref yn benodol, bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael dylanwad sylweddol ar Gynlluniau Datblygu Lleol Cryno yn y dyfodol – yn hollbwysig, mae'r 'Strategaeth a Ffefrir' oedd yn arfer bod yn rhan o Gynlluniau Datblygu Lleol Cryno bellach yn rhan o Gynlluniau Datblygu Strategol – felly mae'n hanfodol cael dweud eich dweud ar ddulliau Cynllun Datblygu Strategol gan y byddant yn cael eu rhoi ar waith drwy Gynlluniau Datblygu Lleol Cryno yn y dyfodol.

## Sut gall cymunedau ychwanegu gwerth?

Gan adeiladu ar yr uchod, mae'n bwysig cofio y gall gwybodaeth a phrofiad lleol fod o werth o ran cynllunio rhanbarthol. Mae gan gymunedau ddealltwriaeth werthfawr o anghenion, heriau a chyfleoedd lleol a sut mae pobl yn byw eu bywyd o ddydd i ddydd. Gall eich mewnbwn helpu cynllunwyr i ddeall nodweddion unigryw gwahanol ardaloedd yn well; gall profiadau tebyg mewn gwahanol leoliadau ar draws y rhanbarth helpu i nodi a mireinio materion sy'n berthnasol i'r rhanbarth cyfan.

Yn ogystal â thynnu sylw at faterion, gall gwybodaeth leol fod yn ddefnyddiol wrth graffu ar dystiolaeth i sicrhau bod yr holl wybodaeth gefndirol berthnasol wedi'i hystyried wrth baratoi'r cynllun. Yn y pen draw, gall gwybodaeth leol helpu i fireinio polisïau a chynigion a nodi meysydd gwella i lunio a dylanwadu ar y Cynllun Datblygu Strategol wrth symud ymlaen yn y broses baratoi. Gall cyfranogiad cymunedol, lle mae'n cael ei gynnal mewn ffordd ystyrlon, ychwanegu dyfnder, perthnasedd a dilysrwydd i SDP.

## Ble ydyn ni'n dechrau?

Bydd pob ymgynghoriad yn cael ei nodi'n glir yn y Cytundeb Cyflawni (DA), bydd prif ddogfen ymgynghori ac mae'n debygol y bydd cyfres o bapurau cefndir (naill ai fel atodiadau neu adroddiadau ar wahân) a fydd yn archwilio'r manylion ynghylch y pwnc

dan sylw - mae'r papurau hyn yn aml yn darparu'r dystiolaeth a'r cyfiawnhad dros yr hyn sy'n cael ei gynnig a byddant yn faes defnyddiol i ganolbwyntio arno.

**Awgrymiadau ymarferol ar gyfer llywio gwybodaeth**

Os ydych chi'n adolygu dogfennau electronig, defnyddiwch CTRL + F a chyflwyno term chwilio i lywio'n gyflym i ddefnydd o'r term hwnnw o fewn dogfen.

Yn yr un modd, gall defnyddio tudalennau cynnwys a mynegeion helpu i ganolbwyntio ar yr adrannau pwysicaf o ddogfennau ffisegol. Dylai adroddiadau hirach hefyd gynnwys crynodeb

Ond mae cymaint o wybodaeth...

O ystyried maint a chymhlethdod materion cynllunio y dylid ymdrin â nhw fel rhan o SDP, bydd llawer iawn o wybodaeth dechnegol yn gysylltiedig ag ymgynghoriadau.

Mae'n bwysig cofio nad oes disgwyl i chi fod yn arbenigwr technegol, ond ar yr un pryd, efallai y byddwch yn gallu nodi amryfusedd neu anghywirdeb yn y wybodaeth a ddefnyddir.

Yn y pen draw, bydd gweithio gyda'n gilydd i sefydlu **blaenoriaethau cymunedol** yn helpu i ganolbwyntio eich blaenoriaeth wrth ymateb i'r ymgynghoriadau hyn – os mai argaeledd tai sydd bwysicaf i chi neu eich cymuned, dylai hyn fod yn ffocws i chi wrth adolygu dogfennau SDP. Gall canolbwyntio ar un neu ychydig o faterion blaenoriaeth helpu i leihau gorlwytho gwybodaeth.

Eto i gyd, mae llawer i'w wneud ar gyfer un cyngor / grŵp / cymuned unigol

Fel unigolyn neu grŵp cymunedol, efallai y byddai'n werth cysylltu â'ch cyngor cymuned lleol i weld a ydynt yn paratoi ymateb ac a allech chi fwydo i mewn i'r broses honno.

Os ydych chi'n rhan o gyngor cymunedol llai, efallai y byddai'n werth gweithio gyda'ch cynghorau cyfagos i gronni eich amser a'ch adnoddau – mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion cydweithio a nodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Sut y dylem fynd ati i ymateb?

Gall natur a ffurf cyfranogiad y gymuned amrywio yn dibynnu ar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol a ble yn union yn y broses baratoi ydych chi. Ar gamau cynharach, mae'n fwy tebygol y bydd ymarferion ymgysylltu wyneb yn wyneb ac yn cynnwys trafodaethau strwythuredig, tra bydd y camau ymgynghori ffurfiol yn destun ymarferion ymgynghori ysgrifenedig (cysylltwch â Cymorth Cynllunio Cymru os ydych chi angen cymorth i ymateb). Mae'n bwysig cymryd rhan yn gynnar ac ar y camau diffiniedig, ym mha bynnag ffurf a bennir – bydd hyn yn cael ei egluro yn y Cytundeb Cyflawni.

Gall canolbwyntio ar yr egwyddorion sylfaenol ym mhennod 3 helpu i ganolbwyntio cyfranogiad cymunedol mewn paratoi SDP; er enghraifft, cwestiynau fel 'A yw'n cydymffurfio â *Cymru'r Dyfodol?'* a byddwn yn gofyn i 'A yw'n mynd i'r afael â'r

dystiolaeth?' pan fo'r cynllun yn cael ei archwilio a gallai fod yn ddefnyddiol i chi fel cymuned ei ystyried.

Mae rhai cwestiynau eraill a allai fod yn ddefnyddiol wrth ystyried eich ymateb yn cynnwys:

- **Beth sy'n bwysig i'n cymuned?** Efallai eich bod yn ymwybodol o hyn o ymarferion cymunedol yn y gorffennol neu eu bod yn cael eu mynegi o gynhyrchu Cynllun Bro neu Gynllun Creu Lleoedd. Yn y pen draw, gall blaenoriaethau cymunedol helpu i lywio a chanolbwyntio'r blaenoriaethau yn eich ymateb.

- **Beth fydd hyn yn ei olygu i ni?** Beth fydd effaith strategaeth benodol? Os yw'r dull gweithredu yn cynnwys darparu datblygiad newydd yn eich ardal, a oes seilwaith priodol ar waith? I'r gwrthwyneb, a fyddai yna effeithiau negyddol yn eich ardal ac yn ehangach o ddiffyg datblygiad?

- **Beth yw'r opsiynau eraill?** Fel gyda phob polisi cynllunio, bydd y Cynllun Datblygu Strategol wedi ystyried ystod o opsiynau cyn dewis ei strategaeth ddewisol - beth yw'r opsiynau amgen hynny a beth fydden nhw'n ei olygu i'ch cymuned?

- **Beth fyddai'n ei wneud yn well?** Mae'n bosib y gallai newid arfaethedig yn eich rhan chi o'r rhanbarth fod yn ddadleuol ond gallai ddod â manteision i'r ardal neu'r rhanbarth ehangach yn ei gyfanrwydd gyda pheth addasiad - efallai y byddai'n fuddiol codi materion o'r fath fel rhan o ymatebion i'r ymgynghoriad hyd yn oed os nad ydych chi’n cytuno â'r hyn sy'n cael ei gynnig.

- **Ble mae'r dystiolaeth?** A yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd i gyfiawnhau'r cynnig yn gywir neu'n gadarn? A oes unrhyw amryfusedd yn y dystiolaeth hon neu a ydych chi’n ymwybodol o dystiolaeth amgen a allai herio'r canfyddiadau?

## Sut ydym ni'n ymateb?

Bydd pob ymgynghoriad yn nodi ei ofynion ar gyfer ffurf a natur yr ymateb sydd ei angen yn ogystal â'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ymateb. Mae'n debygol y gallai fod angen cyflwyno ffurflen ymgynghori yn electronig, er y dylid derbyn sylwadau ysgrifenedig hefyd. Ond cysylltwch â'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol perthnasol os na allwch wneud hynny. Dylech sicrhau bod ymatebion yn cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau penodedig er mwyn sicrhau bod modd ystyried eich ymateb.

## A allai Cynlluniau Bro ychwanegu gwerth?

Gall Cynlluniau Bro fod yn fynegiant gwych o flaenoriaethau defnydd tir cymuned ac felly gellir eu defnyddio i helpu i lunio eich ymatebion i baratoi SDP, yn enwedig lle maen nhw wedi cael eu paratoi mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Cynllunio Lleol, wedi cynnwys ymgysylltiad cymunedol da ac wedi dod i gasgliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Am fwy o wybodaeth am Gynlluniau Bro, ewch i www.placeplans.org.uk

## Lle gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Mae'r canllaw hwn yn cyd-fynd â *Canllaw Cymunedol Cynlluniau Datblygu*, sydd hefyd wedi'i baratoi gan Cymorth Cynllunio Cymru, gweler:
https://planningaidwales.org.uk/cynlluniau-datblygu-canllaw-cymunedol/?lang=cy

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn rhoi cyngor a chefnogaeth i unigolion, grwpiau cymunedol a chynghorau cymuned a thref ar faterion cynllunio – ewch i www.planningaidwales.org.uk/?lang=cy neu ffoniwch 02920 625 000 am fwy o wybodaeth.